Ymatebion i'r ymgynghori ynghylch fersiwn drafft Strategaeth Chwarae Sir Gaerfyrddin

Ydy'r cyflwyniad yn rhoi darlun eglur a defnyddiol o ran pam mae Cyngor Sir Gaerfyrdin wedi datblygu Strategaeth Chwarae?

Ydi (1,2,3,4,5,7,8,9,11,12,13,14,15,20,22, 23, 24, 25)
Wedi'i gynllunio'n dda ac yn egluro yn gryno pam mae'r strategaeth wedi'i datblygu (6)
Dangos yn glir bwysigrwydd chwarae a'r angen am strategaeth chwarae (10)
Ydi, rwy'n hoffi'r defnydd o iaith gyfarwydd a syml fel bod pawb yn medru deall (16)
Ydi, eithaf addysgiadol(19)
Angen ychwanegu Canolfan Ieuenctid i'r rhestr a newid i 'darpariaeth fel' (21)

Wedi ystyried yr ymateb i'r adran yma rydym wedi gwneud y newidiadau priodol.

Oes gennych chi unrhyw adborth neu sylwadau ar adran 2: Beth yw chwarae?

Dim (1,2,3,4,5,8,9,13, 25)
Addysgiadol iawn heb fod yn ormesol (6)
Heb fod yn berthnasol (7)
Ydi – yn bwysig iawn (10)
Eglur ac addysgiadol (10)
Yn ein hamgylchedd ni mae plant yn cael eu hannog i ddysgu trwy chwarae (12)
Hoffi adran 2.3 yn fawr (14)
Rwy'n cytuno gyda beth sydd wedi'i ysgrifennu (15)
Mae Adran 2 yn wych am egluro a diffinio beth yw chwarae (16)
Byddai'n fantais petai'r adran yn pwysleisio bod chwarae yn cwmpasu plant hyd at 16 yn yr ysgol(19)
Atodiad 1: Dulliau Darparu – angen mwy o esiamplau (20)
Angen rhoi cyfeirnod i'r diffiniad ar dudalen 13, angen ychwanegu pobl ifanc i'r ail a'r trydydd paragraff (21)
Mae lle i bwysleisio pwysigrwydd chwarae o ran datblygiad ieithyddol plentyn a sut y gall oedolion hwyluso chwarae(22)
Adran gynhwysfawr. Agwedd ar fywyd plentyn sydd yn cael ei llyncu gan dechnoleg fodern ac sydd heb gael ei hannog yn ddigonol(23)
Rwy'n hoffi diffiniad Lloyd George (24)

O ganlyniad i'r ymatebion i'r adran hon rydym wedi sicrhau ei fod yn eglur bod chwarae yn cwmpasu plant a phobl ifanc. Mae pwysigrwydd chwarae o ran datblygiad ieithyddol plant yn cael ei grybwyll yn adran 2, er hynny bydd yn cael ei drafod yn fanylach yn amcan 1: Annog mwy o

ddarpariaeth chwarae. Ar hyn o bryd rydym yn teimlo bod Atodiad: 1 Dulliau Darparu yn rhestr gynhwysfawr.

Amcan 1: Annog mwy o ddarpariaeth chwarae

Yn eich barn chi, pa rwystrau mae plant a phobl ifanc ag anableddau yn eu hwynebu wrth gyrchu darpariaeth chwarae?

Llawer (1)
Heb fod yn berthnasol (2,4,15)
Darpariaeth addas– cyfarpar dringo ddim ar gael i blant hŷn, mae'r cyfarpar yn fwy addas i blant bach. Mae angen ystod eang o gyfarpar ar gyfer pob oedran (3)
Chwarae diogel sy'n hyblyg (5)
Diffyg cyfarpar addas, mynediad i ystafelloedd, agwedd negyddol pobl (6)
Diffyg darpariaeth chwarae, trafnidiaeth i ddarpariaeth chwarae, gallu chwarae mor annibynnol â phosibl(7)
Mynediad corfforol at gyfleusterau e.e. mynediad i gadeiriau olwyn, diogelwch y cyfarpar a'r cyfleusterau (8)
Corfforol, bwlio, poeni, teimlo'n rhwystredig (9)
Dim digon o weithwyr wedi'u hyfforddi a dim digon o gyfarpar (10)
Cyfarpar addas yn rhy ddrud i'w prynu, gwybodaeth gweithwyr yn brin, teithio a thrafnidiaeth o ardaloedd gwledig (11)
Mae rhai athrawon yn negyddol a difater (12)
Dim llefydd chwarae yn yr ardal sydd yn addas i blant a phobl ifanc ag anableddau. Pethau bach fel drysau yn rhy gul a dim lifft (13)
Dim digon o lefydd chwarae penodedig i blant ag anableddau (14)
Diffyg cyfleusterau sy'n addas i ofynion unigol plant gydag anghenion arbennig (16)
Mae ein disgyblion ni yn dod o ardal ddaearyddol eang ac felly wedi colli cysylltiad gyda ffrindiau yn y gymuned ac felly yn dioddef o hunan barch isel (19)
Nid yw gweithgareddau addas wastad ar gael yn yr un lle â rhai i blant heb anabledd e.e. parc antur/mannau chwarae sefydlog (20)
Camgymeriadau ar dudalennau 14-16 (21)
Heb fod yn berthnasol (22)
Lleoliad adnoddau, cost, amser rhieni (23)
Angen hyfforddiant addas, gofal pan nad yw chwarae wedi'i drefnu/yn rhydd (24)
Nid yw cludiant i ddarpariaeth a pharciau yn addas i anghenion arbennig, mae angen cymorth 1:1 ar lawer o blant ac mae yna broblemau codi a chario(25)

Mynediad, rampiau, ymwybyddiaeth, cefnogaeth, trafnidiaeth, hyder rhieni, hyder plant a phobl ifanc, adeiladu perthynas, llefydd diogel (Ymgynghori)

Trafnidiaeth, cynhwysiant, system cyfeillio, mwy o gefnogaeth er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau prif ffrwd, addysgu gweithwyr a phobl ifanc (Ymgynghori)

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg iawn ac felly bydd yr ymatebion yn cael eu crynhoi a'u cynnwys o dan y pennawd 'Cynhwysiant'

Pa mor hygyrch yw'r ddarpariaeth chwarae yn Sir Gaerfyrddin?

Hygyrch (1,4,6)
Heb fod yn berthnasol (2)
Dim yn dda iawn – pobl yn gorfod mynd yn eu ceir i lefydd chwarae - nid yw hwn yn dda i'r amgylchedd (3)
Yn dda/yn gwella (5)
Mae trafnidiaeth yn broblem fawr i bobl ifanc – argaeledd a chost e.e. dim bysiau ar ddydd Sul (7)
Yn yr ardal yma (Teifi) prin yw'r ddarpariaeth chwarae – mae'r parciau'n anaddas a does dim llawer ohonynt. Mae clybiau ar ôl ysgol yn ddrud. Mae rhai rhieni yn cael gostyngiad ond nid yw oes llawer o rieni sy'n gweithio yn cael gostyngiad (8)
Mae'n hygyrch ond mae angen gwelliannau (9)
Canolfannau teulu, Grwpiau Chwarae, Grwpiau Mam a Phlentyn, mae canolfannau plant yn rhad ac am ddim (10)
Hygyrch iawn os ydi'r rhieni'n medru gyrru, a oes yna gronfa ddata ar gael i deuluoedd newydd sy'n symud i'r ardal gael rhestr o'r ddarpariaeth chwarae? (11)
Yn ein lleoliad ni rydym wedi cael yr holl gyfarpar sydd eu hangen (12)
Hygyrch iawn ond nid i blant ag anableddau (13)
Yn dda (14)
Mae'n hygyrch os oes car gan y rhieni; rydyn ni'n byw yng nghefn gwlad (15)
Ddim yn hygyrch iawn ac yn ddrud i'r rhieni, dim ond canolfannau teulu sy'n cynnig gwasanaeth am ddim (16)
Anodd teithio i Ganolfannau Hamdden. Nid yw rhieni wastad yn medru cynnig gyrru plant (19)
Clybiau ar ôl ysgol ar gael ond nid oes digon o gyllid i'w cadw ar agor, i lawer o blant dros 11 mlwydd oed mae trafnidiaeth yn broblem sy'n amharu ar bresenoldeb/defnydd (20)
Dim digon o weithwyr chwarae a chyfarpar chwarae awyr agored(22)
Gwan (23)
Anodd i blant gwledig. Yng Nghapel Iwan mae angen trafnidiaeth i gyrraedd pobman(24)
Dim digon o gynlluniau chwarae, dim digon o hysbysebu ymlaen llaw i alluogi rhieni i drefnu ymlaen llaw. Gwan iawn mewn llefydd gwledig (25)

Yn brin ar gyfer plant dros 11 mlwydd oed, drud, trafnidiaeth, angen mwy o ddarpariaeth agored, angen cynnwys pobl ifanc yn y broses gynllunio (Ymgynghori)

Beth am gefn gwlad, arwyddion i barciau, bylchau mawr ar gyfer pob oedran, cost, angen mwy o le, angen lle arbennig ym mhob pentref/ardal (Ymgynghori)

Trafnidiaeth, diffyg adnoddau a chyfarpar mewn mannau chwarae, effaith ariannu (Ymgynghori)

Ni ddylai darpariaeth chwarae fod yn ddrud. Mae angen mwy o wybodaeth, cost cyfleusterau hamdden, angen i ddarparwyr chwarae ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn y gymuned. Mae diffyg trafnidiaeth yn rhwystro plant a phobl ifanc rhag chwarae (Ymgynghoriad)

Mae'r mwyafrif o'r ymatebion yn tanlinellu bod yna broblemau ynghlwm wrth drafnidiaeth a chost darpariaeth chwarae ym mhentrefi mwyaf gwledig Sir Gaerfyrddin. Bydd yr ymatebion hyn yn cael eu cynnwys o dan y pennawd trafnidiaeth ac ariannu. Hefyd, dangoswyd bod pobl eisiau rhestr o'r ddarpariaeth sydd ar gael. Yn rhan o'r argymhellion yn yr adran hon nodir bod angen creu rhestr o gyfleusterau chwarae a hamdden yn Sir Gaerfyrddin.

Pa mor hygyrch yw darpariaeth chwarae ddwyieithog?

Diffyg darpariaeth (1)
Heb fod yn berthnasol (2)
MYM yn darparu darpariaeth chwarae wych yn Gymraeg (3)
Mae angen sicrhau bod gweithwyr yn ddwyieithog. Ydi plant dan anfantais os nad ydynt yn siarad Cymraeg? (4)
Diffyg cyfleusterau addas (5)
Hygyrch iawn (6)
Angen mwy, mae diffyg gweithwyr cymwys dwyieithog yn dylanwadu ar hyn (7)
Mae'r dogfennau'n ddwyieithog ond tueddir i siarad Saesneg (8)
Hygyrch iawn (9)
Llanelli – ychydig o ddarpariaeth ddwyieithog ond mae llawer o wahanol ddiwylliannau yn Sir Gaerfyrddin (10)
Sawl Cylch Meithrin, TWF a Menter Bro Dinefwr yn ein hardal ni(11)
Yn ein lleoliad ni mae mwy o Gymraeg na Saesneg yn cael ei siarad (12)
Yn fy marn i mae yna lawer o ddarpariaeth ddwyieithog e.e. meithrin, meithrinfeydd dydd ac ysgolion (13)
Cymedrol (14)
Mae'n hygyrch, mae'r pwll nofio'n rhoi gwersi dwyieithog, clwb ieuenctid ac Adran gerllaw, Cynlluniau Chwarae yn ystod y gwyliau yn ddwyieithog, dim clwb ar ôl ysgol gerllaw (15)
Hygyrch iawn, yn enwedig i'r Gymraeg a'r Saesneg (16)
Heb ateb (19)
Darpariaeth addas fel arfer mewn ysgolion (20)
Mae dwyieithrwydd yn sialens yn enwedig i bobl sydd â nam ar eu clyw, Pwyliaid a.y.b.(22)
Gwan (23)
Anodd cael hyd i weithwyr dwyieithog e.e. ar gyfer Campau'r Ddraig. Hefyd, mae'n anodd cael rhieni sydd wedi symud o wlad dramor neu o Loegr i ddeall

pwysigrwydd dwyieithrwydd. Roeddwn yn arfer rhedeg clwb ar ôl ysgol ond oherwydd niferoedd isel nid ydym yn medru ei gynnal(24)
Dim llawer (25)

Diffyg arweinwyr chwarae dwyieithog, hyder o ran defnyddio'r Gymraeg, mae'n dibynnu ar ble ydych chi'n byw (Ymgynghori)

Nid dim ond Cymraeg a Saesneg, mae angen deall gwahanol ddiwylliannau, mae angen hyrwyddo siarad Cymraeg a Saesneg (Ymgynghori)

Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid ganran uchel o siaradwyr Cymraeg, mae llai o siaradwyr Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar/gofal plant a chwarae <11, bydd nifer y siaradwyr Cymraeg yn dylanwadu ar y ddarpariaeth Gymraeg (Ymgynghori)

Mae'n dibynnu ym mha ardal rydych chi'n byw. Mae plant ifainc yn penderfynu peidio siarad Cymraeg pan ydynt yn cyrchu darpariaeth. Mae angen annog gweithwyr i siarad Cymraeg. Mae nwyddau fel teganau, llyfrau Cymraeg a.y.b. yn rhy ddrud (Ymgynghori)

Roedd yr ymatebion hyn yn amrywiol ac felly bydd yr adran hon yn cynnwys yr ymatebion a'r gwaith sy'n cael ei wneud ym maes dwyieithrwydd.

Beth yw eich barn am yr argymhellion a gynigwyd?

Da (1)
Heb fod yn berthnasol (2)
Cytuno, ond mae angen cyllid digonol (3)
Mae ariannu yn broblem o hyd ond nid yw'r argymhellion yn adlewyrchu hyn (4)
Mae chwarae yn bwysig iawn, mae canolfan gweithgareddau ar bwys ein sefydliad ac rydym yn ei defnyddio yn ddyddiol (5)
Bydd safonau'n cael eu codi a'u cadw ar lefel gyson (6)
Oes angen bod yn fwy penodol? Nid yw'r rhan fwyaf o'r rhain yn fesuradwy (7)
Mae angen ystyried y rhan yma o Sir Gaerfyrddin – efallai ein bod yn ardal wledig ond mae plant yma sydd ag angen darpariaeth hygyrch (8)
Mae unrhyw welliant yn newyddion da, yn enwedig i blant hŷn (9)
Ydi'r argymhellion yma yn ariannol bosibl i staff, darparwyr a defnyddwyr (10)
Da iawn ac yn gyraeddadwy (11)
Llawer gwell ac yn ffocysu ar chwarae (12)
Mae'r 3 argymhelliad yn dda ac yn ffocysu ar ddiwallu anghenion plant a sut y gellir cyflawni hyn(13)
Mae angen codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae yn y gymuned (14)
Mae angen gweld mwy o lefydd agored i chwarae yn enwedig mewn parciau gwledig, mae tynnu sylw at broblemau o ran trafnidiaeth yn bwysig iawn (15)
Mae popeth wedi cael ei gynnwys yn enwedig trafnidiaeth, sy'n bwysig iawn i lawer o deuluoedd(16)

Positif. Beth am ddisgyblion ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol? Mae'r rhain ag anabledd hefyd(19)
Yn addas cyn belled â bod arian ar gael er mwyn eu gwireddu e.e. costau teithio (20)
Heb ateb (22)
Mae rhai rhieni yn ei chael yn anodd cael hyd i wybodaeth am ddarpariaeth chwarae, felly mae angen darganfod ffordd i oresgyn hyn (23)
Mae'n hawdd gwireddu'r rhain mewn trefi a phentrefi mwy, mae'n sialens yn yr ardaloedd mwyaf gwledig lle mae plant yn cael eu 'colli' (24)
Yn dda, ond mae perygl y bydd ardaloedd gwledig yn cael eu hanghofio - mae digonedd o ddarpariaeth mewn ardaloedd trefol difreintiedig (25)

Dylai Caerfyrddin fod yn Sir Gaerfyrddin, plant a phobl ifanc yn hytrach na phobl ifanc yn unig, dim sôn am waith Cynllun Cyfeirio Sir Gaerfyrddin yn yr adran cynhwysiant neu fel partner, diwedd Menter Cwm Gwendraeth heb ei gynnwys yn y logo, angen newid logo Cymunedau yn Gyntaf neu ychwanegu logo Cymunedau yn Gyntaf Pantyffynnon (Ymgynghori)

Sut bydd y rhain yn cael eu gwireddu? Nid yw'n nodi argymhellion fel pennawd, beth am ariannu'r argymhellion, ydi'r iaith yn addas e.e. ni fyddai pobl ifanc dros 13 oed yn defnyddio'r term chwarae ac felly ni fyddai'r ddogfen yn addas iddynt (Ymgynghori)

Rydym yn bwriadu ychwanegu ariannu at yr argymhellion. O ran cael mwy o lefydd chware agored rydym wedi cynnwys hwn yn Amcan 3: Chwarae yn y gymuned. Mae anghenion plant sydd â phroblemau emosiynol ac ymddygiadol wedi'u cynnwys yn yr adran Chwarae Cynhwysol. Bydd gwaith Cynllun Cyfeirio Sir Gaerfyrddin yn cael ei gynnwys yn yr adran cynhwysiant. Byddwn yn sicrhau bod y logos priodol yn cael eu cynnwys. O ran gwireddu'r argymhellion, bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â phob un o'r argymhellion hyn. Rydym hefyd yn bwriadu llunio dogfen ar gyfer plant a phobl ifanc.

Amcan 2: Chwarae yn yr ysgolion

Ydy'r amcan hwn yn cynnwys yr holl gyfleoedd chwarae a geir mewn lleoliadau cyn ysgol ac ysgolion cynradd?

Ydi (1,5,6,7,913,14,15,16, 23)
Mwy o gyfle i ddatblygu gyda'r Cyfnod Sylfaen (2)
Dylai ysgolion wasanaethu'r holl gymuned. Mae angen i ysgolion gael cymorth grantiau er mwyn darparu chwarae addas (3)
Sa i'n siŵr os ydi e'n cynnwys yr holl gyfleoedd (4)
Ydi – os oes cefnogaeth a pharhad – mae angen addysgu cymunedau am yr anghenion yn ogystal â'r ysgolion (8)
Beth am ystyried sut y gellir defnyddio ysgolion y tu allan i oriau ysgol e.e. clybiau i blant 5 - 11 blwydd oed, clybiau ar ôl ysgol a.y.b.? Nid oes unrhyw

ddarpariaeth ar gyfer yr oedran yma a dyma'r oedran pryd y mae rhieni yn pryderu fwyaf (10)
Syniad da mewn egwyddor os oes gan ysgolion/darpariaeth gyn-ysgol yr adnoddau i wireddu hyn. Nid yw hyn ar gael yn neuadd Llangadog ac nid oes llawer o le i gynnal gweithgareddau y tu allan - byddem yn fodlon ystyried symud er mwyn gwella'r sefyllfa (i'r ysgol o ran dewis) ond nid yw ein sefyllfa ariannol yn caniatáu inni wneud hyn (11)
Rydym yn ffodus iawn bod gennym le chwarae y tu mewn a'r tu allan, nid yw pawb mor ffodus â ni (12)
Heb ateb (19)
Ydi, ond dim ond ychydig o brofiad sydd gennyf a hynny mewn ysgol uwchradd (20)
Typos tud 18 – 19 (21)
Heb ateb (22)
Beth am yr Urdd? (24)
Ydi, ond mae angen i glybiau ar ôl ysgol dalu eu ffordd – mae'n anodd eu cynnal mewn ysgolion gwledig – cymorth ariannol(25)

Angen hybu cydadwaith rhwng plant, rhannu arferion da, cymhareb plant ac oedolion, dim llefydd chwarae addas e.e. iard ysgol, dim caeau gwyrdd, agenda blwyddyn 6 yw pontio â'r ysgol uwchradd felly nid yw chwarae'n cael ei ystyried yn darged pwysig, mae angen agor ysgolion ar ôl oriau ysgol er mwyn rhoi mynediad at lefydd chwarae i grwpiau eraill (Ymgynghori)

Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn tanlinellu'r angen i'r gymuned ddefnyddio ysgolion ac mae hyn yn cael ei drafod yn amcan 2. Mae angen diweddaru'r adran ynghylch Ysgolion Bro a bydd yr amcan yn cael ei rannu i gynnwys y cyfnod cyn-ysgol, yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Ydy'r amcan hwn yn cynnwys yr holl gyfleoedd chwarae a geir mewn ysgolion uwchradd?

Ydi (1,9,11,13,15,25)
Heb fod yn berthnasol (2,5,12)
Mae chwaraeon wedi'u trefnu ar gael yn CA3 ond mae angen codi arian er mwyn i ddisgyblion gael mwy o gyfleoedd chwarae (3)
Sa i'n siŵr (4)
Efallai ddim (6)
Ychydig iawn o wybodaeth am yr Ysgol Uwchradd – mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu llawer o gyfleoedd chwarae sydd heb eu cynnwys (7)
Os oes trafnidiaeth ar gael yn y rhan yma o Sir Gaerfyrddin - angen arian i gludo plant i'r cyfleusterau fel bod pob ysgol yn medru manteisio arnynt (8)
Ydy – mae llawer o gyfleoedd ar gael i'r oedran yma (10)
Mae'n anodd dweud gan nad ydwyf yn gyfarwydd â chyfleoedd yn yr ysgol uwchradd (14)
Heb ateb (16)
Mae gormod o blant hŷn 12-16 oed yn chwarae ar y cyfrifiadur neu yn siarad gyda ffrindiau ar y we (19)

Ydi, mae'n dangos bod diffyg cyfleoedd mewn ysgolion uwchradd (20)
Sa i'n siŵr (22)
Does dim profiad gennym o'r ysgol uwchradd ar hyn o bryd (23)
Yr Urdd? (24)

Mae angen i ddisgyblion gael mwy o reolaeth dros ba weithgareddau y maent yn cymryd rhan ynddynt, datblygu hyfforddiant, gwirfoddolwyr i redeg gweithgareddau allgyrsiol, defnyddio chwarae fel arf i godi hyder, hunan-barch a chynhwysiant yn y gymuned, defnyddio chwarae i gynyddu'r budd a geir yn sgil gwaith e.e. NEET, ni ddylid defnyddio amser chwarae/egwyl fel cosb, rhoi mwy o strwythur i'r amser chwarae/egwyl e.e. goruchwyliaeth gan fyfyrwyr y 6ed

Bydd gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid yn yr ysgolion uwchradd yn cael ei gynnwys yn yr adran hon.

Beth yw eich barn chi am yr argymhellion a gynigwyd?

Argymhellion gwych (1)
Arian i gefnogi Dysgu y Tu Allan i'r Dosbarth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (2)
Rhy eang – ychydig iawn o ymroddiad gan CSC o ran sut y bydd chwarae yn cael ei wella (3)
Nid yw LlCC yn darparu digon o arian i gefnogi cost adnoddau dynol er mwyn rhoi sylw manwl i'r Cyfnod Sylfaen, chwarae awyr agored, a chyfarpar chwarae. Angen Trysordy yn Llanelli (4)
Mae plant yn gallu dysgu a meithrin profiad trwy chwarae (5)
Mae angen annog ysgolion, yn enwedig ysgolion uwchradd i fod yn fwy cymunedol, a newid y ffordd mae plant yn gweld yr ysgol (6)
Dim argymhelliad penodol ar gyfer ysgolion uwchradd (7)
Da os rhoddir cefnogaeth a chyngor (8)
Hoffi'r syniad fod pobl ifanc yn cael cyfrannu at greu mannau. Gobeithio bydd hyn yn lleihau'r rhwystrau sy'n ymwneud â diod feddwol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chynnwys yn hytrach na gwahardd pobl ifanc (9)
Heb fod yn berthnasol (10)
Ffantastig – os oes adnoddau ar gael i sefydliadau a bod yr amgylchedd yn caniatáu (11)
Heb fod yn berthnasol (12)
Rwy'n cytuno â'r argymhellion, maent yn addas i'r oedran a'r sefydliad (13)
Mae'r argymhellion yn adeiladol, ond mae angen sicrhau bod pob ardal yn Sir Gaerfyrddin yn cael yr un cyfleoedd (14)
Da(15)
Da iawn (16)
Sawl un yn dda– pwyslais mawr ar oedran cyn-ysgol a phlant iau (19)
Ysgolion Bro yw'r arf pennaf i wireddu'r argymhellion – ariannu? (20)
Dwi'n croesawu'r argymhellion ac yn gobeithio bod arian ar gael i'w gwireddu (22)

Mae gwaith cyswllt yn hanfodol, ac ond yn gweithio os yw pobl yn rhoi'r cynigion ar waith, mae'n bosibl y bydd annog y gymuned i gyfrannu yn datgelu gwybodaeth ac adnoddau annisgwyl (23)
Realistig a chyraeddadwy(24)
Rwy'n gobeithio y bydd yn gwneud gwahaniaeth. Angen i gynghorau cymuned gyfrannu, cyfrifoldeb dros y ddarpariaeth (25)

Ariannu'r ddarpariaeth ar ôl ysgol, ni ddylai chwarae gael ei weld fel rhywbeth ychwanegol i waith pobl, risgiau a goblygiadau i'r penaethiaid yn sgil agor cyfleusterau i'r gymuned oherwydd atebolrwydd a chyfrifoldebau, dysgu rhieni yn yr ysgol – annog rhieni i ddysgu dulliau o chwarae, gwefan chwarae Sir Gaerfyrddin, faint o ddylanwad a gaiff y ddogfen hon, dim arian yn dod i ysgolion ar gyfer hyfforddiant, nid yw rhai safleoedd ysgolion yn addas, dim arian i addasu canolfannau, nid yw llefydd chwarae yn ddigon mawr, mae'r argymhellion yn amwys nid ydynt yn egluro sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni – angen bod yn fwy manwl, dylai cyfleusterau ysgol fod ar gael yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer cynlluniau chwarae a chlybiau gwyliau, mae ar rieni ofn chwarae e.e. nid ydynt am i'w plant wlychu, cost defnyddio cyfleusterau ac adnoddau ysgol, os ydym yn gweithio tuag at yr un agenda o roi cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc 0-25 oed pam fod yna brinder adnoddau a goblygiadau ariannol mor fawr (Ymgynghori)

Er bod yr argymhellion yn gyffredinol bwriedir datblygu Cynllun Gweithredu manwl mewn perthynas â'r argymhellion hyn. Mae'r argymhelliad ynghylch Ysgolion Bro yn cwmpasu ysgolion cynradd ac uwchradd.

Amcan 3: Chwarae yn y gymuned

Beth yw eich barn chi am fannau chwarae sefydlog yn eich cymuned?

Angen rhagor (1)
Heb fod yn berthnasol (2)
Bronwydd – dim llefydd chwarae sefydlog, mae darpariaeth chwarae dda yn Llan-gain felly nid oes cydbwysedd (3)
Nid ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial. Sut bydd parthau 20 mya yn helpu cyfleoedd chwarae? (4)
Tearaways wedi ceisio agor lle chwarae enfawr o dan do ond cafodd ei wrthod gan y cyngor (5)
Mae'r rhan fwyaf o lefydd chwarae yn canolbwyntio ar nifer fach o blant (o dan 5). Nid oes llawer ar gael i blant hŷn (6)
Cymedrol - mae un parc heb gyfarpar sefydlog oherwydd iechyd a diogelwch ac yswiriant (7)
Gwan iawn. Mae gan Dre-fach Felindre barc sydd yn cael ei reoli gan bwyllgor gwirfoddol ond mae gan Saron barc o ansawdd isel sydd angen gwelliannau, darpariaeth gyfyngedig iawn (8)

Wedi ei esgeuluso - ac felly yn denu sbwriel, gwydr, baw cŵn a.y.b.. Angen cadw cŵn allan(9)
Cyfleusterau chwarae cyfyngedig yn y Morfa e.e. dim ond un parc (10)
Mae llawer o barciau wedi cael eu hadnewyddu ond yn addas i un grŵp oedran dim digon o ddarpariaeth i blant hŷn (11)
Digonol ac yn cael gofal (12)
Syniad da gan fod plant yn dysgu ystod o sgiliau (13)
Mae yna barc bach ar gyfer plant cynradd sydd heb fod yn anabl ond dim byd ar gael i blant uwchradd (14)
Mae gennym 2 le chwarae sefydlog sy'n cael eu cynnal gan gynghorau cymuned. Mae'r 2 barc yn cael eu cadw'n daclus, er nad yw cynnal a chadw'r cyfarpar yma yn dda iawn - mae un darn o gyfarpar wedi torri ers sawl blwyddyn (15)
Mae mannau chwarae sefydlog yn ardderchog ac mae angen mwy o gamau i'w hamddiffyn rhag fandaliaeth(16)
Mae Canolfan Hamdden Caerfyrddin yn dda iawn (19)
Dim llawer ar gael ac mae angen gwella, nid yw darpariaeth wastad yn cael ei hysbysebu e.e. maes chwarae Derwydd (20)
Typo tud 21 (21)
Rwyf yn byw ym Mronwydd a dim ond un siglen sydd ar gael (22)
Gwan iawn. Mae'r lle chwarae ar yr heol fawr felly mae plant bach mewn perygl, mae'r ffrâm ddringo yn lleihau'r posibiliadau chwarae, mae'r cyrtiau tennis ar glo ac nid yw'r glaswellt yn cael ei dorri yn aml, nid oes cyfarpar diogelwch ac achub ar lan yr afon (23)
Mae ffrâm ddringo yn cael ei chynnal gan Bwyllgor Cyngor Cymuned ar faes yr ysgol. Mae yna gae a gôl y tu ôl i'r ysgol ac mae'r gymuned yn medru ei defnyddio y tu allan i oriau ysgol. Mae angen llwybr beicio neu sglefrolio er mwyn ateb anghenion y bobl ifanc yn y gymuned (24)
Gwan - does dim lle chwarae yma (Heol y Bragdy) na lle dwi'n byw (Glanyfferi) (25)

Mae mynediad i'r parciau yn anodd, yn enwedig i blant ag anableddau, mae llefydd chwarae yn cael eu fandaleiddio, mae angen iddyn nhw fod yn ddeniadol/lliwgar, angen cyfarpar i blant bach, dim yn addas i bawb, beth am blant yn eu harddegau? Mae rhaid i bobl deithio y tu allan i'w cymuned er mwyn cyrraedd lle chwarae sefydlog, mae'n bwysig teimlo'n ddiogel a bod lle yn edrych yn ddiogel, angen golau, angen lloches a lle golau i blant hŷn, materion iechyd a diogelwch yn y parciau, angen cynnal a chadw parhaus, mae rhieni eisiau lle chwarae diogel e.e. rhywun i gadw llygad, goruchwyliaeth, angen cysylltu â gwirfoddolwyr cymunedol, angen i blant gael cyfrannu (Ymgynghori)

Mae cyfarpar yn y parciau yn addas i blant bach yn hytrach na phlant hŷn, angen i blant a phobl ifanc gael perchnogaeth, angen cysgod a golau yn lle llefydd chwarae, mae'n bwysig gofyn barn plant a phobl ifanc, lle chwarae sefydlog - CYCA, cyfarpar ar gyfer plant iau a phlant hŷn, mae plant hŷn yn defnyddio'r lle eistedd yn lle'r cyfarpar, gerddi - meinciau, Clwb Ieuenctid, CYCA, rhywle i ymlacio, angen dysgu pobl i fod yn oddefgar (Ymgynghori)

Bydd parthau 20 mya yn helpu cyfleoedd chwarae i blant gan y bydd plant a phobl ifanc yn medru chwarae'n ddiogel yn eu cymunedau gan y bydd y traffig yn symud yn arafach ac felly yn lleihau'r perygl o ddamweiniau ar y ffyrdd. Mae'r ymatebion wedi bod yn gymysg iawn, mae llawer wedi dweud nad oes llefydd chwarae sefydlog ar gael neu eu bod o ansawdd isel. Bydd y gofidiau hyn yn cael sylw yn y Strategaeth Chwarae, ond ni fyddwn yn enwi ardaloedd penodedig. Er hynny, byddwn yn sicrhau bod yr adrannau perthnasol yn cael golwg ar yr ymatebion hyn.

Ydym ni wedi ystyried pob agwedd ar chwarae i blant 0-10 oed yn eich cymuned? Os nad ydym, rhowch fanylion

Ydych (1,5,9,10,13,15,16, 24, 25)
Heb ateb (2,7,19,20)
Nid oes lle chwarae awyr agored ym Mronwydd er bod llawer o blant 0-10 oed yn byw yno (3)
Sa i'n siŵr - ydi'r cwestiwn yma yn cyd-fynd â'r wybodaeth yn y ddogfen? (4)
Yn ein cymuned nid oes unrhyw beth i blant dros 5 blwydd oed ei wneud. Dim ond parc chwarae sydd gennym. Rydym yn gorfod teithio y tu allan i'r pentref i gael darpariaeth arall, ond mae'r ddarpariaeth yn y pentref yn wan iawn (6)
Nid oes unrhyw beth yn yr ardal hon ar gyfer yr oedran yma, dim ond clybiau ar ôl ysgol sy'n ddrud (8)
Ydi, sbwriel yn y parc a phrinder biniau (11)
Mae sefydliadau addysgol yn cynnig chwarae strwythuredig, beth am y cartref? (12)
Angen datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant ag anabledd (14)
Mae'r Tîm Cymorth i Deuluoedd yn gwneud llawer iawn o waith gyda phlant sydd ag anghenion arbennig (22)
Does dim llawer ar gael i bob golwg (23)

Mae parciau lleol yn ateb holl ofynion plant, mae angen addasu'r parciau, mae angen i neuaddau cymunedol fod ar gael i blant ifanc, mae llawr diogel yn ddrud iawn, adnoddau naturiol, grwpiau cymunedol i redeg gweithgareddau i blant, adnoddau sydd wedi'u hailgylchu/naturiol, darpariaeth addas i'r oedran dan sylw (Ymgynghori)

Heb gael eu cynnal a'u cadw, angen parciau sglefrio, angen parciau ar gyfer plant a phobl ifanc, angen creu teimlad o berchnogaeth, mae angen adlewyrchu'r cyfnod pontio rhwng plentyndod a'r arddegau yn y ddarpariaeth chwarae, angen cysgodfan ar blant hŷn, angen i bobl ifanc fod yn rhan o'r cynllunio, parciau fel arfer ar gyfer plant 0-7 blwydd oed, mae yna gaeau pêl-droed, mae parciau yn bwysig iawn yn y gymuned, mae neuaddau cymunedol yn codi rhent rhy uchel, nid yw chwarae yn golygu o reidrwydd cael cyfarpar drud, angen bod yn fwy creadigol (Ymgynghori)

Cael ei adeiladu o amgylch plant, angen i neuaddau cymunedol gael eu defnyddio ar gyfer yr oedran yma, Strategaeth Chwarae i roi cymhorthdal i neuaddau o ran eu ffioedd, man cyfarfod rhad i blant, Dylai'r strategaeth gael

ei henwi'n Strategaeth Chwarae a Hamdden, a'i rhannu'n 3 : 0-11, 11-14, 14-16 a 16+. Dylai'r strategaeth gysylltu â'r Strategaeth Rhianta (Ymgynghori)

Angen nodi pa grŵp oedran, angen i blant gael mwy o gyfle i roi barn (Ymgynghori)

Daeth i'r amlwg nad yw'r adran hon yn adlewyrchu'r cwestiynau yn yr holiadur, felly byddwn yn rhannu'r adran hon yn ddwy - 0-10 mlwydd oed a 11-25 blwydd oed. Byddwn yn cynnwys pryderon ynghylch ffioedd clybiau ar ôl ysgol a neuaddau cymunedol, sbwriel a darpariaeth ar gyfer yr ystod o oedrannau yn yr adran hon. Rhoddir sylw yn yr adran hon i bwysigrwydd ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Ydym ni wedi ystyried pob agwedd ar chwarae i bobl ifanc 11-25 oed yn eich cymuned? Os nad ydym, rhowch fanylion.

Ydych (1,5,7,10,13,15,16,20, 24, 25)
Heb ateb (2)
Angen mwy o weithwyr ieuenctid a chlybiau wedi'u trefnu i gadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd (3)
Sa i'n siŵr - ydi'r cwestiwn yma yn adlewyrchu'r wybodaeth yn yr adran (4)
Fel yr uchod (6)
Sa i'n siŵr, ond does dim darpariaeth ar gael sydd heb oblygiadau ariannol (8)
Mae wedi'i gynnwys ond mae angen gwireddu pethau (9)
Na - dim clybiau neu lefydd addas i gwrdd felly mae pobl ifanc yn yfed ac yn creu drygioni (11)
Heb fod yn addas (12)
Dim o gwbl - does dim darpariaeth ym Mhencader (14)
Angen cyfleoedd i gymdeithasu mewn amgylchedd diogel, adeiladu hunanhyder, diwrnodau gweithgareddau e.e. traeth Cefn Sidan, prosiectau coetir, cerdded, gwylio natur, Canolfan Gwlyptir Llanelli (19)
Y Sgowtiaid? (22)
Ychydig iawn i bob golwg (23) Bydd dyfnhau ymwybyddiaeth yn cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r cyfleusterau (23)

Mae angen lle arnyn nhw, gellir rhannu'r adran yn 11-15,15-18, 18-20, 21-25. Mae angen cyfleusterau hamdden ar blant hŷn, gall plant hŷn gael eu hannog i wirfoddoli, mae angen mwy o lefydd cymunedol a phrosiectau (Ymgynghori)

Mae 25 yn rhy hen i'r strategaeth hon. Mae angen ystyried yr oedrannau dan sylw (Ymgynghori)

Mae angen i wefannau'r Bartneriaeth Plant a'r Gwasanaeth Gwybodaeth ynghylch Plant gynnig gwasanaeth lle gall pobl deipio eu côd post i weld pa gyfleusterau sydd yn yr ardal. Mae angen gwefan benodol ynghylch chwarae a hamdden, trafnidiaeth i wahanol gyfleusterau, cyswllt â gwefannau chwarae a hamdden eraill, gwefan bwrpasol ynghylch chwarae, mae angen i'r strategaeth gynnwys rhannau gwahanol, beth am gyllido 0-25 blwydd oed,

beth am Brownis, y Geidiau a'r cadetiaid awyr, angen cydbwysedd o ran y cyllid (Ymgynghori)

Roedd yr ymatebion hyn yn dangos bod yna ddiffyg darpariaeth ar gyfer pobl ifanc 11-25 blwydd oed. Felly, bydd y pryderon hyn yn cael eu cynnwys yn yr adran hon.

Beth yw eich barn chi am yr argymhellion a gynigwyd?

Da (1)
Heb fod yn berthnasol (2)
Iawn, ond a fyddant yn cael eu gwireddu, oes arian ar gael? (3)
Nid yw pobl ifanc o hyd eisiau mynd yn ôl i'r ysgol i chwarae; angen gofod eu hunain arnyn nhw (4)
Byddai'n braf gweld cyfleoedd diogel i blant chwarae yng Nghaerfyrddin (5)
Mae'r argymhellion yn bositif iawn os oes modd eu gwireddu nhw mewn pentrefi bychain (6)
Ystod dda o argymhellion (7)
Angen gwneud yn siŵr fod yr arian/adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol heb gael eu gwastraffu ar gyflogi pobl i wneud gwaith papur - argymhellion da (8)
Mae hyfforddiant chwarae yn bwysig iawn oherwydd mae'r ddarpariaeth gofal plant yn dioddef yn sgil cyflogau isel ac nid yw'n cael y sylw mae'n haeddu, mae angen cyfateb cymwysterau a chyfleoedd chwarae (9)
Mae'r rhain yn argymhellion da, mae codi ymwybyddiaeth yn y gymuned yn bwysig iawn, a fydd y ddarpariaeth yma am ddim gan fod llawer o'r darparwyr y tu allan i'n cymuned ac mae yna gostau ac mae llawer o bobl sydd ar gyflog isel neu fudd-daliadau yn dioddef (10)
Bydd hwn yn goresgyn llawer o broblemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol (11)
Mae'r 6 maes dysgu yn cael eu hateb(12)
Cytuno (13)
Mae'r argymhellion i'w canmol, mae angen mwy o bobl er mwyn gwireddu'r freuddwyd (14)
Da iawn (15,16)
Gweithwyr ieuenctid sy'n medru creu perthnasau buddiol - ardderchog (19)
Uchelgeisiol ac yn briodol (20)
Heb ateb (22)
Sicrhau ymwybyddiaeth a mynediad er mwyn cynyddu'r defnydd a wneir o gyfarpar chwarae (23)
Da – angen cymorth mewn ardaloedd gwledig, gwybodaeth ynghylch grantiau (25)
Bydd gwireddu rhai o'r argymhellion hyn yn fuddiol i blant a phobl ifanc yn ein cymuned hyd yn oed os yw'n wasanaeth allgymorth gydag amserlen reolaidd i bob ardal (24)
Mae angen mwy o enghreifftiau arloesol, mwy o enghreifftiau o chwarae naturiol (Ymgynghori)

Mae'r mwyafrif o'r ymatebion yn bositif, mae'r mwyafrif o'r pryderon yn ymwneud â sut y gellir rhoi'r argymhellion ar waith. Mae cyllid yn broblem o hyd ac yn achos pryder, er hynny, trwy gyflogi Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol ag arian y Loteri bydd mwy o gyfleoedd cyllido ar gael i wireddu'r argymhellion.

Amcan 4: Proffesiwn Gwaith Chwarae

Yn eich barn chi, pa mor hygyrch yw hyfforddiant gwaith chwarae?

Iawn (1)
Heb fod yn berthnasol (2,5)
Dynamix yn Abertawe, ond dylai bod hyfforddiant yn cael ei sefydlu yn y sir (3)
Dim syniad (4)
Dim llawer (6)
Diffyg gwybodaeth am gyfleoedd, dim strwythur clir ar gyfer hyfforddiant chwarae (7)
Ar wahân i'r hyfforddiant ar gyfer y Cyfnod Sylfaen nid yw hyfforddiant yn hygyrch (8)
Eithaf hygyrch (9)
Mae hyfforddiant yn gallu bod yn hygyrch, ond bydd goblygiadau ariannol o hyd yn enwedig i fudiadau elusennol a swyddi wedi'u hariannu (10)
Mae hyfforddiant Cylch Meithrin yn hygyrch iawn, mae hyfforddiant y Bartneriaeth Plant yn grêt, mae Cam wrth Gam a'r cylch meithrin yn cynnig cymwysterau galwedigaethol cenedlaethol (NVQ) (11)
Rhoddir digon o rybudd ac mae'r hyfforddiant yn dda (12)
Yn hygyrch, mae amseru'r hyfforddiant yn anodd weithiau os ydych yn gweithio trwy'r dydd neu'n gofalu am blant (13)
Cymedrol - mae rhai adrannau yn well na'i gilydd (14)
Da (15)
Yn hygyrch iawn (16)
Heb ateb (19)
Cyfyngedig oherwydd diffyg gwybodaeth am hyfforddiant (20)
Mae'n bwysig fod cymhelliant i weithwyr chwarae gael hyfforddiant pellach - strwythur gyrfa, cyflogau, ôl-lanw a.y.b. Mae angen i'r cymhwyster fod yn ystyrlon a bod safonau'n cael eu cynnal (22)
Rydym yn gweithio gyda'n gilydd ac nid ydym yn bwriadu recriwtio. Rwyf yn tybio bod oriau gwaith gweithwyr chwarae yn achosi problem (23)
Mae teithio i'r hyfforddiant yn broblem i fyfyrwyr (24)
Da (25)

Os nad ydych yn gweithio yn y maes yma nid yw ar gael, angen rhagor o hysbysebu, ydi e'n cael ei hysbysebu fel proffesiwn mewn nosweithiau gyrfaoedd, dryswch ynglŷn â pha gymwysterau sy'n fodd i chi wneud beth, mae angen siart llif ar gyfer cymwysterau, mae angen i LlCC gydnabod pwysigrwydd y proffesiwn a'i ariannu yn briodol (Ymgynghori)

Angen cyfeiriadur hyfforddwyr (Ymgynghori)

Mapio pob hyfforddiant – cydweithio, recriwtio, cyrsiau, canoli'r gwaith trwy gyfrwng y Bartneriaeth Plant, drud, heb ei gydlynu, angen cysylltu â CCLD (Ymgynghori)

Mae'r ymatebion yn cyd-fynd â chynnwys yr amcan hwn.

Beth yw'r problemau sydd ynghlwm wrth recriwtio a chadw staff yn y sector gwaith chwarae?

Tâl(1)
Heb fod yn berthnasol (2)
Tâl isel, gwaith rhan amser, dilyniant gyrfa, diffyg swyddi (3)
Tâl isel, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd cydlynu darpariaeth chwarae, mae gormod yn gweld cyfleoedd chwarae a'r proffesiwn fel gwasanaeth gwarchod plant (4)
Heb fod yn berthnasol(5)
Arian. Amserau'r cyrsiau, mae gan lawer o bobl deuluoedd ac felly ond yn medru mynychu cyrsiau rhan amser neu gyda'r nos (6)
Tâl llwm, strwythur, datblygiad proffesiynol, proffil isel, dim gwerthfawrogiad (7)
Heb fod yn berthnasol (8)
Lefelau cyfleoedd chwarae (9)
Mae'r rhan fwyaf o'r swyddi yn ddibynnol ar ariannu ac felly mae swyddi yn medru diflannu, mae'r proffesiwn gwaith chwarae yn cynnig cyflog isel ac felly mae sawl swydd gan weithwyr (10)
Tâl isel am waith cyflenwi amser cinio, anodd cael y staff priodol i hyrwyddo amgylchedd chwarae priodol. Siaradwyr Cymraeg, pwysau trwm ar arweinwyr Cylch Meithrin o ganlyniad i'r Cyfnod Sylfaen - mae'r rhain yn gwneud yr un gwaith ag athrawon ond ar gyflog llawer is felly bydd hi'n anodd cadw staff mewn darpariaeth cyn-ysgol oherwydd y pwysau sydd arnynt (11)
Ni fydd myfyrwyr ifainc yn aros yn y swyddi oherwydd mae angen gwaith llawn amser arnynt yn hytrach na rhan amser (12)
Anodd cael hyd i siaradwyr Cymraeg, anodd cael hyd i bobl sydd ddim yn ysmygu, staff lleol, golwg/cymryd balchder (13)
Anodd iawn recriwtio gweithwyr - cyflog isel, prinder hyfforddiant a.y.b. (14)
Rwy'n cytuno bod hi'n anodd denu arweinwyr sy'n siarad Cymraeg, rydw i yn dysgu Cymraeg, ges i'r swydd oherwydd nad oedd siaradwyr Cymraeg wedi ymgeisio neu oherwydd nad oedd ganddynt y cymwysterau cywir (Lefel 3 mewn gofal plant) (15)
Gweithio gormod oherwydd diffyg gweithwyr, arian a chyflogau isel (16)
Heb ateb(19)
Tâl, mae materion cyllido yn ein hatal rhag datblygu cyfleusterau a sicrhau hyfywedd ariannol (20)
Angen tystiolaeth ar gyfer paragraff 1 tud 23, angen rhagor am waith CPCKC, angen cael gwared â phwyntiau ar waelod tud 23 hefyd gweler y sylwadau perthnasol ynghylch y proffesiwn gwaith chwarae (21)

Heb ateb (22)
Rydym yn gweithio gyda'n gilydd ac nid ydym yn bwriadu recriwtio. Efallai fod oriau gwaith chwarae yn achosi problem (23)
Oriau e.e. nosweithiau a phenwythnosau, ydi'r tâl yn denu'r bobl gywir? (24)
Tâl isel (25)

Angen edrych ar deitl y swyddi, cyflogau, mae dynion sy'n weithwyr chwarae yn brin, mae'n cael ei weld fel profiad gwaith yn hytrach na phroffesiwn, statws, oriau, ariannu tymor byr, oriau afrealistig, dim sicrwydd swyddi (Ymgynghori)

Oriau anghymdeithasol, cyflogau isel, prin yw'r oriau a gynigir, statws isel, cael eu cymryd yn ganiataol, nid yw'r tâl yn adlewyrchu'r cymwysterau

Mae'r ymatebion yn cyd-fynd â'r pwyntiau yn y rhan hon o'r ddogfen.

Beth yw eich barn chi am yr argymhellion?

Da (1)
Heb fod yn berthnasol(2)
Iawn, a fyddant yn cael eu gwireddu? (3)
Perthyn i'r amcanion (4)
Hoffwn weld cyfraniad gan sefydliadau lleol (5)
Positif iawn (6)
Da (7)
Mae angen gwneud yn siŵr bod arian yn cael ei wario'n iawn a bod gweithwyr chwarae ar gael ym mhob rhan o Sir Gaerfyrddin (8)
'Proffesiwn Gwaith Chwarae' – IE! (9)
Mae llawer iawn o elfennau wedi cael eu hystyried, mae cyflogau ac oriau yn isel (10)
Ardderchog – a oes modd eu cyflawni? (11)
Yn ein sefydliad ni mae yna gyfleusterau ar gael i ddysgu trwy chwarae sy'n cwmpasu'r 6 elfen ddysgu (12)
Cytuno, a dylid eu gwireddu a'u rhoi ar waith bob amser (13)
Angen cynnig hyfforddiant (14)
Mae'r argymhellion yn dda. Rydw i yn mynd i weithdy chwarae gyda Geiriau Bach er mwyn cael syniadau am chwarae dwyieithog, dyma beth sydd angen (15)
Dylid cynnwys materion cyflog er mwyn i weithwyr deimlo bod pobl yn eu gwerthfawrogi a bod eu gwaith caled yn cael ei gydnabod (16)
Heb ateb (19)
Addas (20)
Heb ateb (22)
Maen nhw'n gynhwysfawr i bob golwg (23)
Cytuno (24)
Angen gwella datblygiad ar lefel bersonol, hefyd angen gwella statws y proffesiwn gwaith chwarae – yn yr argymhellion – GRÊT (25)

Angen tynnu sylw at faterion cyflogau a'r angen ar i LlCC gydnabod bod angen rhagor o arian (Ymgynghori)

Hyfforddiant gwaith chwarae rhad ac am ddim; angen hyfforddiant mwy hygyrch, ac un cymhwyster ar gyfer pob sefydliad (Ymgynghori)

Mae'r holl ymatebion hyn yn cyd-fynd â'r argymhellion

Amcan 5: Rheoli risg a Phryderon Rhieni

Pa gyfleoedd chwarae mae plant a phobl ifanc yn eu colli oherwydd ofn anafiadau a niwed?

Llawer (1)
Chwarae ag elfennau naturiol, amgylchedd corfforol heriol - dringo coed, adeiladu cwtsh (2)
Chwarae corfforol – ffrâm ddringo, chwarae heb oruchwyliaeth (3)
Nid oes gan lawer o rieni yr amser i oruchwylio chwarae awyr agored (4)
Llawer o gyfleoedd, nid yw rhieni yn hapus i adael i blant chwarae y tu allan (5)
Profiadau antur awyr agored (6)
Mae rhai parciau wedi cael gwared â chyfarpar am resymau iechyd a diogelwch. Does dim arian ar gael i adnewyddu/cyfnewid offer (7)
Fel y nodwyd yn y strategaeth (8)
Rhyddid i fwynhau yn yr awyr agored, crwydro, chwarae pêl neu redeg o amgylch a gweiddi, beicio oherwydd mae'r ffyrdd yn rhy brysur a pheryglus (9)
Defnyddio clybiau, parciau a darpariaeth arall gyda ffrindiau a chael y cyfle i fynegi eu hunan i'w llawn botensial mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n gyffyrddus (10)
Llawer, diwylliant beio ar gynnydd; mae angen ychydig o risg er mwyn dysgu sut i ymdopi, teithiau, cerdded yn yr awyr agored a.y.b. ofn hawliadau (11)
Dim yn ein darpariaeth ni (12)
Mae plant yn colli cyfleoedd oherwydd ofn dolur a niwed; fel neidio o le uchel, dringo, archwilio gweadedd, archwilio yn yr awyr agored(13)
Mae rhieni'n pryderu am ddylanwadau/peryglon yn y gymuned, nid yw rhai plant byth yn chwarae y tu allan (14)
Chware yn yr awyr agored heb oruchwyliaeth oedolion (15)
Nid yw rhieni yn gadael i blant fynd i'r parc oherwydd bod arnynt ofn pobl ddieithr (16)
Heb ateb (19)
Gweithgareddau corfforol yn yr awyr agored, llefydd antur, teithiau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyffrous/anghyffredin - dringo creigiau, canŵio a.y.b. (20)
Angen tawelu meddwl rhieni ynghylch diogelwch a rhoi gwybodaeth iddynt ynghylch pwysigrwydd hybu annibyniaeth (22)
Amryw o bethau ond nid oes sail i rai o'r ofnau hyn, ychydig iawn o risg sydd (23)
Cael llonydd i chwarae'n annibynnol – dysgu trwy brofiadau (24)

Chwarae y tu allan yn peri gofid – angen i rieni fynd gyda'r plant 'rhag ofn' (25)

Heb oruchwyliaeth, ymddiriedaeth, dim elfen o berygl, gangiau, tyfu yn rhy gyflym, dim hawl baeddu dillad, chwarae dychmygus/heb strwythur/tu allan, mae plant yn disgwyl cael eu diddanu, lle agored, ymwybyddiaeth rhieni o beryglon y we, gwefannau cymdeithasu, negeseuon testun, mwy o draffig, arwyddion dim peli (Ymgynghori)

Chwarae yn y tywyllwch, yn y strydoedd, heb oruchwyliaeth, allan o olwg, mewn nentydd oherwydd glendid, peryglon boddi, dringo coed neu ddringo yn gyffredinol (Ymgynghori)

Rheilffyrdd, llynnoedd wedi rhewi, cuddio yn y goedwig, dringo coed uwchben afonydd, reslo yn y mwd, cyfyngu ar amser (ffonau symudol yn golygu bod rhieni'n gallu cysylltu â'u plant), ofn dieithriaid, nid oes cyfle iddynt fod yn blant, credir eu bod yn ddiogel gartref ond a ydi hyn yn wir os ydynt yn siarad gyda phobl ddieithr ar y we ac yn tecstio, angen profi poen a chael damweiniau er mwyn dysgu o'u camgymeriadau a datblygu gwytnwch (Ymgynghori)

Mae'r ymatebion yn cyd-fynd ag Amcan 5

Beth yw'r problemau sy'n wynebu darparwyr chwarae o ran risg a phryderon rhieni?

Llawer (1)
Amgylchedd diogel, gyda goruchwyliaeth ac yswiriant rhag anafiadau (2)
Ofn cyfreitha (3)
Angen hyfforddiant er mwyn rhagweld problemau, angen yswiriant holl gynhwysfawr, angen i'r graff ddangos gwybodaeth 2005-2008 (4)
Mae cyfathrebu yn hanfodol – cyflawni'r canlyniad gorau i bawb (5)
Ofn rhieni, dim digon o weithwyr ar ddyletswydd (6)
Ofn achosion cyfreithiol, iawndal. Nid yw rhieni'n gweld pwysigrwydd rhoi cyfle i blant fentro, barn negyddol yn y cyfryngau (7)
Llai tebygol o gymryd risg oherwydd pryder ynghylch cwynion/anafiadau (8)
Mae derbyn cyfrifoldeb am blentyn rhywun arall yn dasg enfawr, mae angen llai o bwyslais ar asesiadau risg ac iawndal a derbyn bod damweiniau'n digwydd a'u bod yn rhan o ddysgu a chwarae. Dydw i ddim yn golygu danfon plant allan ar eu pennau eu hunain ond derbyn risg mewn ffordd bositif (9)
Mae darparwyr yn cael eu cyfyngu yn eu darpariaeth, arian, gweithwyr a hyfforddiant addas i rieni/gofalwyr er mwyn iddynt deimlo bod eu plant yn cael y gofal priodol a'u bod mewn amgylchedd diogel ac yn cael gofal o'r ansawdd uchaf ac yn cael profiadau addas sy'n cyfrannu at eu dyfodol (10)
Mae pob rhiant yn wahanol, mae rhai yn or-ofalus ac nid ydynt am i'w plant gymryd risg a byddant yn hawlio iawndal os bydd rhywbeth yn digwydd, mae hyn yn wir am chwarae corfforol a hefyd os yw plentyn yn cael llid ar y croen neu rywbeth tebyg ac mae darparwyr chwarae yn fwy gwyliadwrus oherwydd

hynny. Mae angen dysgu rhieni bod angen i blant chwarae a bod yn annibynnol (11)
Dim yn ein darpariaeth ni (12)
Diogelwch cyffredinol plant er mwyn osgoi damweiniau a niwed (13)
Meithrin hyder rhieni bod gweithwyr wedi'u hyfforddi i edrych ar ôl plant a'u cadw nhw yn ddiogel (14)
Asesiadau risg, hawliadau yswiriant (15)
Cael rhieni i sylweddoli bod damweiniau yn digwydd i blant (16)
Heb ateb (19)
Angen cynnal a chadw/diweddaru cyfarpar, yswiriant, staff, cymwysterau, archwilio cofnodion troseddol a.y.b. (20)
Mae angen cyfarwyddyd clir ynghylch cysylltiadau corfforol a.y.b. a thawelu meddwl rhieni pryderus (22)
Cadw'r ddysgl yn wastad rhwng darparu cyfleoedd chwarae sydd yn sialens heb ormod o risg. Mae'r risg o fynd ag unigolyn i'r llys yn bodoli, er ei fod yn beth anghyffredin iawn. I lawer, mae'n haws peidio â chymryd risg, ond effaith agwedd fel hon yw sicrhau na fydd bobl yn gwneud dim (23)
Os oes damwain mae pobl yn chwilio am rywun i'w feio, mae'n anodd i rai rhieni dderbyn bod damweiniau yn digwydd (24)
Angen dilyn polisïau Iechyd a Diogelwch (25)

Iechyd a Diogelwch, cyfreitha/beio, pwysau gan rieni, noson tân gwyllt yn cael ei chanslo oherwydd bod yr yswiriant yn rhy ddrud (Ymgynghori)

Mae'r ymatebion yn cyd-fynd ag amcan 5

Beth yw eich barn chi am yr argymhellion?

Da (1)
Angen cyllid digonol er mwyn sicrhau bod digon o weithwyr a chyfarpar (2)
Dim yn ddigon – angen hyfforddi rhagor o weithwyr yn lleol a chreu swyddi (3)
Cyd-fynd â'r amcan (4)
Mae'n bwysig cael rhywun i ofalu am chwarae (5)
Mae'r argymhellion yn bositif a gobeithio y bydd rhieni yn talu sylw ac y byddant yn llai ofnus (6)
Ymwybyddiaeth rhieni – mae angen pwysleisio pwysigrwydd cymryd risg fel bod plant yn datblygu eu hymwybyddiaeth eu hunain o ddiogelwch ac felly yn medru gwneud penderfyniadau mwy priodol (7)
Da (8)
Da – nid oes angen amddiffyn plant o hyd a'u cadw o flaen y teledu (9)
Mae llawer o bwyntiau wedi cael sylw, mae angen dangos i rieni a gofalwyr beth sydd ar gael a sut y bydd hyn o fudd i'w plant yn y pen draw. Mae hon yn dasg anodd, sut y gellir ei chyflawni? (10)
Da iawn (11)
Dim (12)
Rwy'n cytuno â'r argymhellion ac mae gweithio tuag at safonau'r CSSIW yn bwysig iawn (13)
Mae'n bwysig bod pawb yn cyrraedd yr un safonau (14)
Da (15)
Maent yn iawn, mae lle i gynnwys rhai ychwanegol (16)

Heb ateb (19)
Mae angen cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael yn yr ardal leol (20)
Heb ateb (22)
Gallai rhagor o wybodaeth am nifer y damweiniau helpu rhieni a darparwyr i werthuso risg yn fwy effeithiol (23)
Cytuno (24)
Da (25)

Sut y gallwn ni godi ymwybyddiaeth rhieni? Hyfforddi athrawon, angen cynyddu dealltwriaeth o'r Cyfnod Sylfaen, Diwrnod Chwarae Cenedlaethol, angen i'r cyhoedd cael golwg ar y strategaeth, llun anaddas o fachgen yn defnyddio gaing (Ymgynghori)

3ydd pwynt yn anghywir, mae angen newid ffyrdd o weithio, angen i FITT gydymffurfio gyda ROSPA (Ymgynghori)

Nid oes angen dangos i rieni ond eu hatgoffa nhw, taflenni/posteri gan y Bartneriaeth Plant, rhannu'r strategaeth yn gyfnodau allweddol neu oedrannau, tud 23 mae Llwynhendy yn enghraifft o arferion da ond mae hyn yn gamarweiniol oherwydd nid nhw oedd y cyntaf i greu chwarae mynediad agored (Ymgynghori)

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cyd-fynd â'r argymhellion.

Amcan 6: chwarae ar draws Sir Gaerfyrddin

Pa mor bwysig yw hi fod yr Awdurdod Lleol a'r sectorau Gwirfoddol a Statudol yn cydweithio i ddatblygu cyfleoedd chwarae?

Pwysig (1)
Heb fod yn berthnasol(2)
Pwysig iawn er mwyn sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu hystyried (3)
Dylai pawb sy'n ymwneud â chwarae gael eu cynnwys (4)
Mae angen i bobl ddod at ei gilydd i weld beth sydd ei angen ar blant (5)
Mae'n hanfodol fod y sectorau hyn yn cydweithio er mwyn darparu gofal o'r safon uchaf (6)
Hanfodol, ni fydd y strategaeth chwarae yn diwallu llawer o'r argymhellion os nad yw pawb yn cydweithio. Hefyd, mae'n hanfodol fod adrannau megis parciau/cynllunio ac addysg y Cyngor Sir yn gweithio gyda'i gilydd (7)
Mae'n bwysig iawn sicrhau bod pob ardal yn cael ei thrin yr un fath er mwyn sicrhau nad yw'r ardaloedd gwledig yn cael eu hanghofio (8)
Pwysig iawn (9)
Mae'n hanfodol fod pob mudiad yn gweithio'n agos er mwyn datblygu cyfleoedd chwarae gan fod y rhain yn rhan o hawl sylfaenol plentyn (10)
Pwysig dros ben, rydym yn fwy tebygol o gyflawni'r amcanion a'r argymhellion trwy gydweithio a rhannu safbwyntiau gwahanol (11)
Pwysig iawn gan y bydd mwy o argraff yn cael ei chreu sydd yn golygu y bydd plant yn elwa (12)

Dwi'n meddwl bod hi'n hanfodol bwysig fod pawb yn yr awdurdod lleol yn cydweithio er mwyn gwella'r ddarpariaeth chwarae (13)
Os gallwn gael pawb i gydweithio bydd y ddarpariaeth chwarae yn gwella (14)
Pwysig iawn (15)
Pwysig iawn (16)
Pwysig iawn, mae angen defnyddio'r adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol (19)
Hanfodol (20)
Gorfodol, ond mae angen ystyried gweithwyr iechyd e.e. Therapyddion Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, ffisiotherapyddion a.y.b. (22)
Bydd yn cynnig mwy o wybodaeth a syniadau, gall ymgynghori â'r gymuned arwain at fwy o gyfleoedd (23)
Rhannu syniadau, cyllid a chynnig y cyfleoedd gorau posib (24)
Hanfodol – rhannu gwybodaeth (25)

Mae'r holl ymatebion yn cytuno ei bod hi'n bwysig iawn fod adrannau yn cydweithio ac yn cyfathrebu.

Beth yw eich barn am yr argymhellion a gynigwyd?

Da (1)
Heb fod yn berthnasol (2)
Iawn os byddant yn cael eu gwireddu ac os bydd y bobl ifanc yn elwa – nid yw grwpiau gweithredu wastad yn gwella darpariaeth (3)
Un swydd i gyflawni'r holl waith yma? (4)
Heb fod yn berthnasol(5)
Positif ac yn addas i blant, mae'n ystyried beth sydd ei angen ar blant ac nid beth y mae oedolion yn meddwl sydd ei angen ar blant (6)
Da (7)
Da – os byddant yn cael eu gwireddu (8)
Da os bydd cyfle i ymgynghori â phobl ifanc (9)
Mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysig iawn, mae cynifer o ddarparwyr yn Sir Gaerfyrddin fe allai newid enfawr ddigwydd o ganlyniad i gydweithio (10)
Ffantastig - trafod pob elfen (11)
Da gan eu bod yn strwythurau (12)
Argymhellion da a fydd yn cyfrannu at ddatblygu cyfleoedd chwarae (13)
Da iawn (14)
Da (15)
Da iawn (16)
Da. Beth am weithio gyda'r heddlu? (19)
Iawn os bydd swyddogion chwarae yn rhoi'r un sylw i bobl ifanc (11-25 oed) (20)
Heb ateb (22)
Maent yn dda i bob golwg, ond efallai na fydd un swyddog chwarae yn ddigon (23)
Cytuno (24)
Da (25)

Mae'r ymatebion yn cyd-fynd â'r argymhellion. Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses a bydd yr argymhellion yn cael eu gwireddu trwy ddatblygu Cynllun Gweithredu effeithiol.

Cyffredinol

Beth ellid ei ychwanegu at y Strategaeth Chwarae i'w gwneud yn fwy defnyddiol?

Dim (1)
Heb fod yn berthnasol(2)
Adroddiad ymchwil ar y ddarpariaeth sy'n bodoli, a gwybodaeth am y ddarpariaeth a gynllunnir yn y dyfodol gan roi manylion daearyddol (3)
Nid yw rhai cwestiynau yn adran 2 a 3 yn cyd-fynd â'r wybodaeth yn yr adrannau hyn (4)
Heb fod yn berthnasol (5)
Na (6)
Heb fod yn berthnasol (7)
Heb fod yn berthnasol (8)
Addysgu rhieni i ddeall pwysigrwydd chwarae i blant (9)
Mae llawer iawn o faterion wedi cael eu hystyried, mae'r ddogfen yn ddefnyddiol iawn (10)
Dim, mae angen iddi fod yn broses barhaus a fydd yn datblygu wrth i bethau gael eu rhoi ar waith a'u newid – ni fydd rhai problemau yn dod i'r golwg hyd nes y bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu (11)
Sut i annog plant i chwarae gartref (12)
Na(13)
Na (14)
Heb fod yn berthnasol (15)
Heb ateb (16)
Heb ateb (19)
Angen sicrwydd y bydd gwybodaeth am y cyllid sydd ar gael yn dilyn canlyniadau'r strategaeth (20)
Mae pwysigrwydd darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer datblygiad iaith yn sylfaen i bob elfen arall o ddysgu. Mae angen y sgiliau ar weithwyr chwarae i hyrwyddo iaith trwy chwarae (22)
Ymgynghori â rhieni a'r gymuned er mwyn annog mwy o gyfranogiad ac effaith (23)
Mae'n gynhwysol (24)
Llefydd chwarae cynhwysol – anodd ond yn hanfodol, mae'r strategaeth yn dda - amser i weithredu (25)

Mae'r mwyafrif o'r sylwadau yn cytuno nad oes angen newid y cynnwys.

Ydych chi'n cytuno bod yr iaith a ddefnyddir yn y Strategaeth yn ddealladwy i bawb?

Ydi (1,2,3,5,6,8,9,10,11,12,13,14,15,19,23, 24, 25)

Bydd rhai o hyd na fydd yn gallu deall y wybodaeth yn llawn; mae'r iaith ar y cyfan yn foddhaol (4)
Ydi - beth am fersiwn i'r plant? (7)
Y rhan fwyaf ohoni (16)
I rai yn y byd addysg, maen nhw yn gyfarwydd â'r iaith yma. Byddai rhieni yn ei chael yn rhy eiriog (20)
Mae'n ddogfen hir felly byddai crynodeb o'r pwyntiau pwysig yn ddefnyddiol (22)

Mae Crynodeb Gweithredol o'r prif bwyntiau yn cael ei ddatblygu a hefyd fersiwn i blant a phobl ifanc.

Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau eraill ar y Strategaeth?

Na (1)
Heb fod yn berthnasol (2)
Gobeithio bydd y gweithredu yn gwella darpariaeth chwarae a gwella iechyd a.y.b. i bawb o dan 25 blwydd oed (3)
Mae ysgolion yn darparu cyfleoedd gwych i ddatblygu chwarae a dysgu trwy chwarae - er hynny nid oes arian ar gael, dim ond trwy gystadlaethau a.y.b. nid yw LlCC na'r awdurdod yn rhoi cyllid a.y.b. er mwyn gwella chwarae trwy'r Cyfnod Sylfaen. A ddylai hwn fod yn flaenoriaeth? (4)
Heb fod yn berthnasol(5)
Na (6)
Heb fod yn berthnasol (7)
Gwnewch yn siŵr fod yr ardal hon o Sir Gaerfyrddin h.y. Dyffryn Teifi, yn enwedig Dre-fach Felindre a Saron lle mae llawer o blant, yn cael pob cefnogaeth a darpariaeth sydd ar gael. Nid oes llawer yma ar hyn o bryd (8)
Na (9)
Dim sylwadau (10)
Na (11)
Na (12)
Na (13)
Na (14)
Defnyddiol ac wedi'i chynllunio'n dda (15)
Mae'n ddelfrydol i bob golwg ond nid ydym yn byw mewn byd delfrydol, ond os gallwn gyflawni'r mwyafrif o'r gwaith trwy gydweithio bydd hyn yn wych (16)
Heb ateb (19)
Na (20)
Mae'r adran iaith a lleferydd yn wybodus iawn am chwarae ac mae ganddynt sgiliau i hyfforddi eraill i hyrwyddo cyfathrebu trwy chwarae (22)
Mae'n wych gweld fod chwarae yn rhan bwysig o'r agenda (23)
Gobeithio y bydd yr argymhellion yn cael eu gwireddu (24)
Heb fod yn berthnasol (25)

Nid oes angen newid y ddogfen o ganlyniad i'r ymatebion hyn.

Cyffredinol

‘Da iawn – mae’n edrych yn wych’ (17)

‘…mae peth o’m cyfrifoldebau i gyda’r garfan NEET yn Sir Gaerfyrddin (pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, yn enwedig pobl ifanc 16-19 blwydd oed), mae rhwng 8 a 12% o bobl ifanc y sir wedi cefnu ar addysg, hyfforddiant a gwaith, efallai bod angen ystyried ymateb i ran o’r broblem hon yn y Strategaeth Chwarae. Mewn ardaloedd fel Llanelli mae nifer fawr o deuluoedd lle does neb wedi bod yn gyflogedig ers 2 neu 3 cenhedlaeth, lle nad oes diwylliant cyrhaeddiad o gwbl bron. All y Strategaeth Chwarae gyfrannu yn hyn o beth? A allai adfer etheg gwaith cymunedau fod yn un o amcanion y strategaeth?’ (18)

Tud 21, y Gwasanaeth Ieuenctid, pwynt 1 – llinell 3 camgymeriad sillafu
Angen mwy o luniau o bobl ifanc.
Ni fyddai pobl ifanc 14-25 oed yn ystyried y Strategaeth Chwarae fel dogfen a fyddai’n eu cynnwys nhw.
Tud 16 pennawd ‘argymhellion’, gwall sillafu ym mhwynt 3
Sut bydd materion yn ymwneud ag asesiadau risg yn cael sylw?
Beth yw eich cynlluniau i ymgynghori â phobl ifanc 18-25 oed?
A fyddai’r Strategaeth Chwarae yn creu mwy o argraff petai’n cael ei rhannu yn oedrannau gwahanol e.e. 0-11, 11-25 neu 0-14 a 14-25?
Beth sy’n rhaid ei wneud i gael arian y Loteri Fawr? A ydyw’n broses cyflwyno cynigion? Sut mae’n gweithio?

Teitl posib:

‘Plant a Phobl Ifanc yn Sir Gaerfyrddin: Strategaeth chwarae, hamdden a chymdeithasol’

Bydd cywiriadau sillafu yn cael eu cwblhau a bydd trawstoriad o luniau yn cael eu defnyddio. O ran ymgynghori â phobl ifanc 18-25 blwydd oed gofynnwyd i Goleg Sir Gâr a Choleg y Drindod gymryd rhan yn yr ymgynghori ond yn anffodus oherwydd amgylchiadau annisgwyl nid oeddent yn medru cymryd rhan. Bydd gwybodaeth ar gael yn ystod y cyfarfod lansio ynghylch ail rownd ariannu’r Loteri Fawr.

Newidiadau eraill

Bydd ystod amser yn cael ei ychwanegu i’r clawr er mwyn cyd-fynd ag ystod amser Cynllun Plant a Phobl Ifanc Sir Gaerfyrddin.
Bydd yr adran Iaith a Chwarae yn cael ei symud o Amcan 2 Chwarae yn yr Ysgol i Amcan 1 Annog mwy o ddarpariaeth chwarae.